**ATODIAD 1**

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adroddiad Amgylcheddol

## 2021/22

This document is also available in English

## Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod yr effaith gadarnhaol a negyddol mae ein hamrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau yn eu cael ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo i ddangos arweiniad wrth warchod a chynnal amgylchedd naturiol y sir.

Credwn y dylem arwain drwy esiampl i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar waith ar draws ein holl wasanaethau, ac eithrio ysgolion, a sicrhau bod ein heffeithiau amgylcheddol yn cael eu monitro a'u rheoli a bod ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol yn parhau i wella.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am berfformiad amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod 2021/2022, rhoi trosolwg o'r System Rheoli Amgylcheddol a dangos cynnydd yn erbyn ein hamcanion amgylcheddol.

**Sut i gael rhagor o wybodaeth:**

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Ffordd Conwy
Mochdre LL28 5AB

01492 575337

green.dragon@conwy.gov.uk

www.conwy.gov.uk/yddraigwerdd

This document is also available in English

## Dolenni Perthnasol

**Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd**
Menter wirfoddol yng Nghymru, wedi'i llunio i helpu sefydliadau i wella'u perfformiad amgylcheddol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy, gan weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy osod a chyhoeddi amcanion lles a chymryd camau rhesymol i gwrdd â'r amcanion hynny.

**Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023**
Mae'r cynllun 5 mlynedd hwn yn nodi'r amcanion lleol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal leol.

**Cynllun Corfforaethol CBSC 2017 i 2022**
Mae'r cynllun 5 mlynedd hwn yn amlinellu prif flaenoriaethau'r Cyngor i gefnogi anghenion y dinasyddion sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Rhybudd o Gynnig a Datganiad Argyfwng Hinsawdd CBSC Mai 2019**
Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.  Mae'r Cyngor wedi gosod targed i'r awdurdod fod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030.

**Rhaglen Her yr Hinsawdd CBSC**
Mae'r rhaglen wedi'i sefydlu i gyflwyno cynllun datgarboneiddio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r weledigaeth i arwain ein cymunedau er mwyn sicrhau bod gennym Sir ddi-garbon net.

This document is also available in English

## Cyd-destun Sefydliadol

**Gwasanaethau Corfforaethol**
Archwilio a Chaffael, Cyllid, Gwasanaeth Pobol a Perfformiadd, TG a Thrawsnewid Digidol, Y Gyfraith a Llywodraethu, Marchnata a Chyfathrebu, Ymchwil a Gwybodaeth, Ystadau.

**Economi a Diwylliant**
Canolfannau hamdden; llyfrgelloedd; pyllau nofio; canolfannau busnes a chynadleddau; theatrau.

**Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau**
Casglu a gwaredu gwastraff; glanhau strydoedd; toiledau cyhoeddus; ymateb i lifogydd; atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir; parciau, mannau gwyrdd a chefn gwlad; meysydd a mannau chwarae; rhandiroedd; claddedigaethau ac amlosgiadau; cynnal cerbydau'r Cyngor; cynnal a chadw ffyrdd, llwybrau troed, ymylon ffyrdd, pontydd ac isadeileddau; goleuadau stryd; graeanu yn y gaeaf; rheoli'r harbwr a'r arfordir; parcio; rheoli adeiladau'r Cyngor; Tramffordd y Gogarth.

**Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai**
Monitro iechyd anifeiliaid; cynllunio; rheoli adeiladu; teledu cylch caeedig; cadwraeth; gorfodi; warden cŵn; monitro ansawdd amgylcheddol; diogelwch a safonau bwyd; cymorth tai; trwyddedu; enwi a rhifo strydoedd ac eiddo; cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau; safonau masnach.

**Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau**
Casglu ardrethi annomestig cenedlaethol a threth y cyngor; hawliadau a chyngor am dreth y cyngor a budd-daliadau tai; ymchwiliadau twyll budd-daliadau.

**Gofal Cymdeithasol ac Addysg**
Cefnogaeth gwaith cymdeithasol; gofal preswyl a nyrsio; gofal cartref; canolfannau dydd, ysgolion cynradd ac uwchradd.

# Polisi Amgylcheddol

**1.0 Datganiad Polisi**

1.1 Mae'r Cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.

1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Dod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030;
- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo dulliau rheoli amgylcheddol cyfrifol;
- Nodi a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol perthnasol i'n sefydliad;
- Atal llygredd aer, dŵr a thir o'n gweithgareddau a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.

1.3 Mae'r System Rheoli Amgylcheddol a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.

**2.0 Cwmpas y Polisi**

2.1 Mae Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Diwylliant, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau a Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

2.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol o'n gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a'r peryglon llygru cysylltiedig.

**3.0 Amcanion Gwella**

3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar 8 maes blaenoriaeth:

1. Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
2. Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
3. Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
4. Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
5. Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
6. Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
7. Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
8. Mae pobl yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

3.2 Caiff perfformiad tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n agos ac adroddir amdano'n flynyddol.

**4.0 Adolygiad a Chymeradwyaeth**

4.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Fel rhan o'r adolygiad, caiff y polisi hwn ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.

This document is also available in English

## System Rheoli Amgylcheddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael ei achredu i Lefel 5 Safon y Ddraig Werdd ers Chwefror 2014.

Mae cwmpas y system rheoli amgylcheddol yn cynnwys holl weithgareddau a swyddogaethau'r cyngor, ac eithrio ysgolion, ac mae'n cael ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob maes yn cwrdd â gofynion Safon y Ddraig Werdd.

Mae'r system reoli wedi ei chofnodi'n llawn ac mae'r Llawlyfr Amgylcheddol yn gweithredu fel arwydd ar gyfer gwahanol elfennau'r system, yn cynnwys y dogfennau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal y system reoli.

Gellir gofyn am y Llawlyfr Amgylcheddol a'r holl ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r system reoli gan green.dragon@conwy.gov.uk. Gallwch ddod o hyd i ganllaw staff y Ddraig Werdd a thaflenni ffeithiau'r Ddraig Werdd, sy'n rhoi canllawiau am ddeddfwriaeth sy'n gyffredin ar draws yr adrannau, ar dudalennau'r ddraig werdd ar y fewnrwyd.

**Cofrestr Agweddau Amgylcheddol**

Mae agweddau amgylcheddol mwyaf sylweddol ar weithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'u nodi a'u cofnodi ar y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, ac wedi'u categoreiddio'n unol â'r Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfedd, yn 7 categori: Niwsans statudol, dŵr a rheolaeth elifion, rheoli gwastraff, defnyddio tir a chadwraeth, COSHH, allyriadau i'r aer a defnyddio adnoddau naturiol.

Mae arwyddocâd yr agweddau a nodir yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio matrics risg, gan gymharu'r tebygolrwydd y bydd yr effaith yn digwydd, canlyniad yr effaith os bydd yn digwydd ac a dorrwyd unrhyw ddeddfwriaeth.

Mae'r Gofrestr Agweddau hefyd yn nodi a oes yna risg llygredd yn gysylltiedig â'r agwedd, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Atal Llygredd, a rhestru mesurau rheoli penodol sydd yn eu lle ar gyfer yr agweddau hyn.

Mae'r prif agweddau amgylcheddol a nodwyd yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a pheryglon llygru cysylltiedig.

**Atal Llygredd**

Mae gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n peri risg uchel neu ganolig o lygredd amgylcheddol, fel y nodir ar y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, yn cael eu cofnodi ar y Cynllun Atal Llygredd.

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu i leihau'r risgiau amgylcheddol sy'n codi o'n gweithgareddau a sicrhau y gallwn ddarparu ymateb effeithiol i unrhyw risg bosibl o lygredd. Mae'r Cynllun Atal Llygredd yn rhoi manylion am y mesurau rheoli sydd yn eu lle ar hyn o bryd i leihau'r perygl llygru, ac unrhyw fesurau ychwanegol sydd eu hangen.

Os ceir achos o lygredd, ymdrinnir ag ef yn unol ag EMS04 a bydd manylion am y digwyddiad, yn cynnwys camau a gymerwyd, yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Anghydffurfedd.

**Adolygu Rheolaeth**

Cynhelir Adolygiadau Rheolaeth bob blwyddyn fel fforwm ar gyfer gwelliannau amgylcheddol

This document is also available in English

parhaus ac i fonitro effeithiolrwydd y System Rheoli Amgylcheddol.

Mae aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cadeirio'r Adolygiad Rheolaeth ac mae Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Chludiant a'r Rheolwr Gwella Busnes AFfCh yn ffurfio'r Tîm Adolygu Rheolaeth.

Mae'r hyn a ddaw allan o'r Adolygiad Rheolaeth yn cael ei gofnodi yn y cofnodion, sydd ar gael ar gais.

Roedd yr allbwn o'r Adolygiad Rheolaeth mwyaf diweddar yn cynnwys:

- Cymeradwyaeth y bydd canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol yn parhau fel yr amcanion amgylcheddol.
- Cadarnhad bod agweddau amgylcheddol sylweddol yn cael eu rheoli'n briodol.
- Cadarnhad bod rhwymedigaethau cydymffurfio yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.
- Cymeradwyaeth y bydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn cyfeirio at yr Adroddiad Perfformiad Carbon ar gyfer manylion y perfformiad amgylcheddol mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Cydymffurfedd Cyfreithiol**

Mae'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol, y gofynion rheoliadol ac ymrwymiadau gwirfoddol perthnasol eraill sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol ar weithgareddau a gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'u cofnodi ar y Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfedd, yn cynnwys perthnasedd y ddeddfwriaeth i'r sefydliad; manylion yr angen i gydymffurfio; y dulliau a ddefnyddiwyd i werthuso cydymffurfedd a'r swyddog sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfedd. Caiff y Gofrestr ei hadolygu'n flynyddol, yn unol ag EMS01.

Mae cofnodion am drwyddedau gwastraff a Thystysgrifau Ynni i'w Harddangos a gedwir gan yr Awdurdod yn cael eu cadw a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'u bod yn cael eu hadnewyddu'n brydlon pan fo angen.

**Lleihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**

Mae'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau o weithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi eu nodi ac rydym yn ymwybodol o'r gweithgareddau maen nhw'n deillio ohonyn nhw a'r effaith maen nhw'n ei chael ar yr amgylchedd.

Dyma'r prif Nwyon Tŷ Gwydr a nodwyd:

- Carbon Deuocsid o deithio a defnyddio ynni;
- Methan o wastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi
- Ocsid Nitrus o gerbydau sydd wedi'u gosod â thrawsnewidyddion catalytig a gwaith trin carthion;
- Osôn o gerbydau sydd wedi'u gosod â thrawsnewidyddion catalytig;
- Anwedd Dŵr.

Bydd y gwaith i fod yn Awdurdod di-garbon net yn cynnwys monitro ac adrodd ar ddata allyriadau o'r ffynonellau canlynol:

**Allyriadau Cwmpas 1**

- Tanwydd a ddefnyddir gan adeiladau sy’n eiddo i ac yn cael eu gweithredu gan y Cyngor
- Nwy a ddefnyddir gan beiriannau gyda gwres ac ynni cyfunedig
- Tanwydd a ddefnyddir gan gerbydau a pheiriannau’r Cyngor

**Allyriadau Cwmpas 2**

- Trydan grid a ddefnyddir gan adeiladau sy’n eiddo i ac yn cael eu gweithredu gan y Cyngor
- Trydan grid a ddefnyddir gan oleuadau stryd / Teledu Cylch Caeedig.

**Allyriadau Cwmpas 3**

- Cyflenwad a systemau trin dŵr ar gyfer adeiladau sy’n eiddo i ac yn cael eu gweithredu gan y Cyngor
- Teithio busnes gan staff y Cyngor
- Staff y Cyngor yn teithio i’r gwaith
- Gwastraff o weithrediadau’r Cyngor
- Caffael nwyddau a gwasanaethau
- Defnydd ynni gan asedau ar brydles

2019/20 yw blwyddyn y llinell sylfaen ar gyfer adrodd ar allyriadau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i dracio allyriadau er mwyn bod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030. Mae allyriadau wedi eu trosi i $CO_2e$ at ddibenion adrodd ac adroddir am fanylion yn flynyddol yn yr Adroddiad Di-garbon Net a gyhoeddir ar wefan y cyngor.

**Datblygu Cynaliadwy**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer Cymru o ran darparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy a gweithio er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

I gefnogi’r modd y cyflawnir yr amcanion lles a amlinellir yn y Ddeddf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu Cynllun Llesiant Lleol sy’n gosod amcanion y bydd y Bwrdd yn eu cyflawni er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal leol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Ceir 3 blaenoriaeth yn y Cynllun Llesiant:

- Pobl - Cefnogi lles meddyliol da i rai o bob oed.
- Cymuned – Cefnogi rhoi grym i gymunedau.
- Lle - cefnogi gwytnwch amgylcheddol.

Mae Cynllun Corfforaethol Conwy yn gynllun 5 mlynedd sy’n amlinellu prif flaenoriaethau Conwy i gefnogi anghenion dinasyddion sy’n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chonwy ac mae’n cyfrannu at gyflwyno Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Mae 8 deilliant dinasyddion o’r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu mabwysiadu fel ein hamcanion amgylcheddol.

Mae pobl yng Nghonwy:

1. Wedi’u haddysgu ac yn fedrus.
2. Yn ddiogel ac yn teimlo’n ddiogel.

3. Yn cael mynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy’n gwella safon eu bywyd.
4. Yn iach ac yn egnïol.
5. Yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
6. Yn gwerthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd.
7. Yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a’r iaith Gymraeg yn ffynnu.
8. Yn cyfrannu at eu cymuned.  Maen nhw’n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

This document is also available in English

## Blaenoriaethau Amgylcheddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod bod ein heffeithiau amgylcheddol mwyaf sylweddol ym meysydd:

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n gweithgareddau**

Rydym yn allyrru nwyon tŷ gwydr o fwy neu lai popeth rydym yn ei wneud, wrth i ni deithio a phrynu mwy o nwyddau i ddarparu gwasanaeth safonol, rydym yn allyrru carbon deuocsid a llygryddion eraill i'r atmosffer, sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfranogwr yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Leihau Carbon o 2011-2019, gan adrodd ar faint o garbon a oedd yn cael ei allyrru o'n hadeiladau a'n gweithgareddau.

Yn 2019 datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd a sefydlwyd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gyflwyno cynllun datgarboneiddio er mwyn lleihau allyriadau a bod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Cyhoeddir gwybodaeth am hyn ar wefan y Cyngor a bydd yn cael ei diweddaru wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. Rhaglen Her yr Hinsawdd (conwy.gov.uk)

**Defnyddio adnoddau naturiol**

Mae Rhaglen Her yr Hinsawdd Conwy yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i reoli'r allyriadau carbon o'u gweithgareddau er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol, a sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cwmpas y Rhaglen yn cynnwys allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu o weithgareddau a wneir gan y cyngor, yn cynnwys defnydd ynni a dŵr ar ystâd y Cyngor, gweithredu fflyd y cyngor, teithio busnes a theithio i'r gwaith, goleuadau stryd a chadwyn gyflenwi'r Cyngor.

**Rheoli gwastraff**

Yn ogystal â'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn swyddfeydd a depos y Cyngor, rydym hefyd yn gyfrifol am gasglu sbwriel a deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws o bob aelwyd yn y Sir; mae ein gwasanaeth gwastraff masnach yn casglu sbwriel a deunydd i'w ailgylchu gan nifer o fusnesau ac ysgolion; rydym yn gweithredu cyfleuster adfer deunyddiau, canolfan swmpio a 2 ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref.

Mae Gwasanaeth Gwastraff Conwy, sy'n rhan o Wasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, yn parhau i ymchwilio i ddulliau newydd i drin gwastraff.
Mewn partneriaeth â Chynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych agorwyd safle treulio anaerobig ym mis Gorffennaf 2014 sy'n prosesu 22,500 tunnell fetrig o wastraff bwyd bob blwyddyn, ac mae'n cynhyrchu 1MW o drydan adnewyddadwy a gwrtaith bio i'w ddefnyddio ar dir ffermio lleol.

Yn 2019 daeth cyfleuster gwastraff-i-ynni Parc Adfer ar waith sy'n prosesu hyd at 200,000 tunnell fetrig o wastraff na ellir ei ailgylchu gan Awdurdodau Gogledd Cymru bob blwyddyn. Mae'n cynhyrchu hyd at 19MW o ynni adnewyddadwy i bweru cartrefi a busnesau. Ers i Barc Adfer gael ei agor, nid oes unrhyw wastraff o Sir Conwy wedi cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Wrth weithio tuag at y dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer cynyddu'r gyfradd ailgylchu, yn 2014/15 cyflwynodd Conwy system Trolibocs i gasglu cynnyrch i'w ailgylchu ac yn 2018/19 Conwy oedd y cyngor cyntaf yn y DU i weithredu casgliadau sbwriel bob 4 wythnos – sydd wedi cyfrannu at welliannau sylweddol yn yr ardal.

This document is also available in English

O ganlyniad i hyn, cafodd mwy na 71% o wastraff a gasglwyd yng Nghonwy ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio yn 2021/22.

Mae’r holl ddeddfwriaeth sy’n llywodraethu’r gweithgareddau hyn yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfedd, ac rydym yn sicrhau cydymffurfiaeth â nhw bob amser.

**Storio tanwydd ar gyfer fflyd y cyngor**

Adran Cludiant Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau sy’n gyfrifol am ddarparu tanwydd ar gyfer yr holl gerbydau a pheiriannau yn fflyd y Cyngor. Mae tanciau tanwydd wedi’u lleoli mewn 7 depo drwy’r sir: Builder Street, Swyddfeydd Mochdre; Plas yn Dre; Canolfan Swmpio Gofer, Tan y Gopa, Cerrigydrudion a Thre Marl.

Mae’r tanciau tanwydd yn stocio disel gwyn ac maen nhw’n achosi perygl amgylcheddol o dân, ffrwydrad, gollyngiad, a llygredd i’r ddaear. Mae’r peryglon hyn wedi eu nodi yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a’r Cynllun Atal Llygredd ac mae mesurau yn eu lle i reoli a lleihau’r risgiau cysylltiedig.

**Gollyngiadau elifion masnach**

Rydym yn ymwybodol bod rhai o’n gweithgareddau’n cynhyrchu elifion masnach sy’n cael eu gollwng i’n system dŵr gwastraff. Pan fo hyn yn digwydd, rydym wedi nodi’r math o ollyngiad ac wedi cael y caniatâd priodol gan Dŵr Cymru.

Rydym wedi cofnodi cynlluniau draenio ar gyfer ein safleoedd risg uchel gan nodi’r lleoliad, math a chyfeiriad llif y draeniau a lleoliad nodweddion ychwanegol y system er mwyn sicrhau dulliau effeithiol i reoli elifion a systemau draenio.

## Amcanion Amgylcheddol

Mae 8 deilliant dinasyddion o Gynllun Corfforaethol Conwy wedi cael eu mabwysiadu fel ein hamcanion amgylcheddol.

- Canlyniad 1. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
- Canlyniad 2. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
- Canlyniad 3. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau.
- Canlyniad 4. Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn egnïol.
- Canlyniad 5. Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus.
- Canlyniad 6. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
- Canlyniad 7. Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Canlyniad 8. Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maen nhw'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Ceir manylion y perfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol a gellir ei weld ar wefan y Cyngor http://www.conwy.gov.uk/cy/adroddiadblynyddol

**Canlyniad 1: Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus**

Mae gan bawb botensial. Rydym eisiau i bawb ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â'u potensial. Rydym eisiau bod yn adnabyddus am addysg ardderchog.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Wella addysg ar draws ysgolion.
- Gwella perfformiad a chanlyniadau.
- Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd swyddi.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A1.1 - Gweithio gydag ysgolion i wella canlyniadau ym mhob cyfnod allweddol o addysg. Byddwn yn canolbwyntio cefnogaeth ar grwpiau o ddysgwyr fel plant sy'n derbyn gofal, y rhai ar brydau ysgol am ddim yn ogystal â herio ein cyflawnwyr uchel.

A1.2 - Datblygu systemau i herio a chefnogi perfformiad ysgolion ledled yr Awdurdod Lleol yn effeithiol.

A1.3 - Gweithio gydag ysgolion i roi'r fframwaith cymwyseddau digidol ar waith.

A1.4 - Gweithio i gael y cydbwysedd cywir - yn ogystal â gallu defnyddio TG, rhaid i bobl ifanc allu chwarae a bod yn llythrennog yn gorfforol. Byddwn yn edrych ar ffyrdd i helpu lleihau gordewdra mewn plentyndod a gwella iechyd emosiynol.

A1.5 - Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion gyda rheolyddion a pholisïau Covid parhaus.

**Canlyniad 2: Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.**

Rydym am i gymunedau gydweithio er mwyn sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn ddiogel.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Gryfhau trefniadau diogelu ar draws y cyngor.
- Cael cymunedau sy'n cadw llygad ar bobl ddiamddiffyn.
- Helpu pobl i wybod beth ddylen nhw ei wneud i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A2.1 - Byddwn yn sicrhau bod yna ymagwedd gorfforaethol gyson tuag at ddiogelu o fewn y cyngor.

A2.2 - Byddwn yn monitro ein dull ac yn ceisio gwella dulliau recriwtio a chyflogaeth diogel yn barhaus.

A2.5 - Derbyn sicrwydd gan ysgolion bod Llywodraethwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu.

A2.7 - Byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'n cymunedau lleol i gadw pellter cymdeithasol a mesurau rheoli eraill yn ystod Covid.

**Canlyniad 3: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau**

Rydym eisiau i'n preswylwyr fyw mewn llety sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles yn gadarnhaol.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael i'w prynu a'u rhentu.
- Cynllunio'r llety cywir yn yr ardaloedd cywir.
- Atal pobl rhag dod yn ddigartref.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A3.1 - Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o safon sy'n bodloni'r angen a nodir ac yn helpu i liniaru'r effaith ar ddiwygiadau llesiant Llywodraeth y DU.

A3.2 - Gweithio gyda'n partneriaid i gryfhau ein gwasanaethau atal digartrefedd ymhellach.

A3.3 - Cynyddu'r cyflenwad o dai priodol ar y farchnad agored sy'n cwrdd â'r anghenion dynodedig.

A3.4 - Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cyflenwad ac ansawdd llety addas yn y sector gofal annibynnol.

**Canlyniad 4: Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn egnïol**

Rydym eisiau hyrwyddo dewisiadau ar gyfer byw'n iach.  Gall hyn wneud gwir wahaniaeth i ansawdd bywyd pobl.

**Byddwn yn canolbwyntio ar:**

- Hyrwyddo dewisiadau iach a ffyrdd o fyw iach.
- Gweithio gyda'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Sicrhau bod pobl yn gallu derbyn y gofal sydd ei angen arnyn nhw pan maen nhw ei angen.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A4.1 - Datblygu modelau newydd i hyrwyddo iechyd a lles fel bod pobl o bob oed yn dibynnu llai ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio ac edrych ar dueddiadau yn y dyfodol.

A4.2 - Byddwn yn canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn rhoi cefnogaeth i rieni drwy ddulliau amlasiantaethol.

A4.3 - Byddwn yn gweithio i sicrhau bod dinasyddion Conwy yn cael mynediad prydlon at asesiad iechyd meddwl a chefnogaeth.

A4.4 - Byddwn yn datblygu dulliau er mwyn annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

A4.5 - Byddwn yn gweithio i gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol er mwyn cefnogi lles staff.

A4.6 - Annog teuluoedd ar draws y sir i gael yr hyder i fynd allan a chwarae, archwilio a chreu gyda'i gilydd.

**Canlyniad 4: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus.**

Rydym eisiau cael digon o swyddi, gwasanaethau, nwyddau ac arian. Mae hyn yn bwysig os ydym am fod yn iach, yn gryf ac yn gallu tyfu yn y dyfodol.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Annog creu syniadau newydd ac arloesedd.
- Annog swyddi a busnesau newydd.
- Datblygu twristiaeth yn y gaeaf.
- Datblygu sgiliau a chyfleoedd ar gyfer prentisiaethau.
- Cydweithio gyda phob busnes yn yr ardal.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A5.1 - Darparu cefnogaeth i fusnesau er mwyn eu helpu i aros yn hyfyw / adfer o effaith economaidd Covid-19.

A5.1a - Galluogi busnesau Conwy i elwa o'r prif ddatblygiadau economaidd ar draws y rhanbarth a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r weledigaeth dwf ehangach.

A5.2 – Adolygu Strategaeth Twf Economaidd Conwy er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n dal i fod yn berthnasol yn dilyn Covid-19.

This document is also available in English

A5.3 - Cwblhau'r eiddo newydd yn Ffordd Penmaen Conwy (Parc Menter Tremorfa) i gefnogi twf busnesau newydd.

A5.4 - Cefnogi datblygiad sgiliau (yn cynnwys prentisiaethau) er mwyn paratoi pobl i fod yn barod ar gyfer cyfleoedd gwaith yn yr ardal.

A5.5 - Datblygu cynnig ar gyfer twristiaeth yn y gaeaf er mwyn cryfhau'r sector a'i gwneud yn fwy cynaliadwy ar gyfer buddsoddiad a chyflogaeth.

A5.6 - Annog budd-ddeiliad eraill i helpu amddiffyn yr arfordir a gwarchod isadeiledd hanfodol gan gynnwys ffordd yr A55 a'r brif reilffordd a'r brif garthffos ym Mae Colwyn.

A5.7 - Byddwn yn ailstrwythuro ein gwasanaethau er mwyn ein galluogi i ganolbwyntio ar strategaethau adfywio ar draws y Sir.

**Canlyniad 6: Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd**

Rydym eisiau i'n cymunedau allu gwrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd. Mae angen i ni feddwl am yr amgylchedd wrth wneud penderfyniadau.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gwella dulliau amddiffyn rhag llifogydd ar yr arfordir.
- Addysgu pobl i amddiffyn eu cartrefi eu hunain rhag llifogydd.
- Ailgylchu mwy.
- Defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A6.1 - Cefnogi ac addysgu cymunedau er mwyn atal/paratoi ar gyfer llifogydd.

A6.2 - Yn ddibynnol ar gyllid, gweithredu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a chynlluniau arfordirol cynaliadwy sy'n addas i'r diben.

A6.3 - Cefnogi preswylwyr a busnesau i ailgylchu mwy a gwastraffu llai.

A6.4 - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu er mwyn sicrhau diwydiant ailgylchu cynaliadwy e.e. cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Byddwn yn caffael gan ddarparwyr amgylcheddol gyfrifol.

A6.5 - Lleihau allyriadau carbon ac ôl-troed carbon y Cyngor drwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

A6.5a - Annog cymunedau i ddatblygu eu prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain.

A6.6 - Hyrwyddo gwaith datblygu morlyn llanw yng Ngogledd Cymru.

A6.7 - Gweithredu cynllun dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

A6.8 - Bydd y Cyngor yn cyhoeddi cynllun eglur o ran llwybr yr Awdurdod tuag at fod yn ddefnyddiwr di-garbon net. Bydd y cynllun yn cael ei gynllunio gyda'r nod o gael ei weithredu'n llwyr yn ystod y 10 mlynedd sydd i ddod.

**Canlyniad 7: Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r**

**iaith Gymraeg yn ffynnu**

Rydym eisiau diogelu ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym eisiau annog pobl i siarad Cymraeg fel rhan o fywyd pob dydd.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Hyrwyddo a dathlu ein diwylliant.
- Defnyddio'r celfyddydau i helpu lles pobl.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A7.1 - Byddwn yn datblygu ein llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau.

A7.2 - Rydym nawr wedi sefydlu Canolfan Ddiwylliant Conwy a byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglen estyn allan i ymgysylltu â'r gymuned.

A7.3 - Datblygu strategaeth ddiwylliannol dros y Sir sy'n ymgorffori ein holl weithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant, ac a fydd yn cefnogi datblygu economaidd, lles, adfywio a phenderfyniadau mawr am fuddsoddi.

A7.5 – Drwy Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy fe fyddwn yn annog dysgu a siarad Cymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.

**Canlyniad 8: Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais**

Mae'n bwysig i bobl gael dweud eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau.

**Byddwn yn canolbwyntio ar**

- Edrych ar sut rydym yn cynnwys pobl.
- Edrych ar sut rydym yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda chymunedau.
- Gwneud newidiadau i wella ein ffordd o weithio.
- Helpu pobl i gymryd rhan.
- Gwneud defnydd da o dechnoleg.

**Sut rydym yn bwriadu ei gyflawni**

A8.2 - Byddwn yn adolygu sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i gymryd rhan yn natblygiad a gwytnwch gwasanaethau.

A8.3 - Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gwneud y wybodaeth rydym yn ei rhannu'n berthnasol ac yn fwy hygyrch a chadarn.

A8.4 - Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol a sianeli digidol i ddarparu mynediad mwy effeithiol ac effeithlon at wasanaethau.

A8.5 - Gweithio gyda chymunedau, darparwyr cludiant a phartneriaid eraill i ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o gludiant ar gyfer y cyhoedd a mynediad at wasanaethau. Byddwn yn peilota opsiynau amgen arloesol.

A8.6 - Byddwn yn ceisio cyflawni a chynnal statws 'gweithio tuag at fod yn sefydliad sy'n deall

dementia' fel y caiff ei achredu gan Gymdeithas Alzheimer's.

A8.7 - Byddwn yn parhau i weithredu'r cynlluniau i gyflwyno Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol ar draws safleoedd sy'n eiddo i Gonwy a lle bo hynny'n bosibl ceisio cefnogi/dylanwadu ar ddarparwyr allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni er mwyn rhoi'r Rhwydwaith ar waith.

## Perfformiad Amgylcheddol

Mae allyriadau $CO_2$e a $CO_2$ yn cael eu monitro fel rhan o ymrwymiad Conwy i ddulliau rheoli amgylcheddol, a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd mesurau gwella sydd wedi cael eu rhoi ar waith, a sefydlu ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol.

Ar ôl datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 sefydlwyd Rhaglen Her yr Hinsawdd er mwyn cyflwyno cynllun datgarboneiddio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. 2019/20 yw blwyddyn y llinell sylfaen a ddefnyddir i fesur taith Conwy tuag at gyflawni allyriadau di-garbon net.

Bydd Rhaglen Her yr Hinsawdd yn darparu'r weledigaeth er mwyn **arwain ein cymunedau yn ein nod i fod yn sir ddi-garbon net**.

Amcanion y rhaglen yw:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor a ddaw o ystadau, fflyd, staff yn teithio i'r gwaith, teithio ar gyfer busnes, y gadwyn gyflenwi a goleuadau stryd er mwyn llwyddo i greu allyriadau di-garbon net.
- Gwrthbwyso'r allyriadau sydd yn weddill erbyn 2030.
- Datblygu a gweithredu ar gynllun ynni ardal leol ar gyfer Cyngor Conwy erbyn 2030.

Rheolir perfformiad y rhaglen a'r cynnydd tuag at y nod o gael allyriadau di-garbon net drwy Raglen Her yr Hinsawdd, yr adroddir amdani'n flynyddol yn yr Adroddiad Di-garbon Net ac a gyflwynir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle i gael ei gymeradwyo.

Mae Adroddiad Di-garbon Net 2021/22 i'w weld yn atodiad 1.

**ATODIAD 1**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Craffu Economi a Lle |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | 15/02/2023 |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd Geoff Stewart |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Geraint Edwards, Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Geraint Newman, Swyddog Rheoli Carbon<br>Rhif ffôn: 01492 574281<br>E-bost: geraint.newman@conwy.gov.uk |
| **TESTUN:** | Adroddiad Perfformiad Di-garbon Net |
| **RHANBARTH ETHOLIADOL:** | POB UN |

## 1. CRYNODEB A'R PWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1. Yn dilyn datganiadau o argyfwng hinsawdd cenedlaethol a lleol yn 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei ymrwymiad i gyflawni targedau di-garbon net erbyn 2050 a datgarboneiddio'r sector cyhoeddus erbyn 2030.

1.2. Mae Cyngor Conwy wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi nodi ei ymrwymiad i gyflawni targedau di-garbon net erbyn 2030. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn rhagweithiol i'r cyfarwyddyd cenedlaethol ac ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd Cynllun Datgarboneiddio'r Cyngor gymeradwyaeth ddemocrataidd unfrydol.

1.3. Mae Cyngor Conwy wedi sefydlu sylfaen cyfateb i garbon newydd sy'n cyd-fynd â gofynion adrodd di-garbon net cenedlaethol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Y flwyddyn sylfaen nawr yw 2019/20, gyda chwmpas estynedig, gan gynnwys elfennau ychwanegol i beth sydd wedi cael ei fesur a'i adrodd yn y gorffennol, megis y gadwyn gyflenwi a staff sy'n cymudo.

1.4. Yn 2021/22 diwygiodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau adrodd i gynnwys allyriadau o weithio o gartref a gwastraff trefol.

1.5. Bydd perfformiad cyfateb i garbon y cwmpas hwn yn y dyfodol yn cael ei gymharu â'r flwyddyn sylfaen newydd hon o 2019/20, tra bo perfformiad yn y gorffennol wedi'i gymharu â hynny yn 2010/11.

1.6. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad cyfateb i garbon y cwmpas diwygiedig ar gyfer 2021/22, a'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen newydd o 2019/20.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Argymhellir:

- bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn cael sicrwydd bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â'i berfformiad yn erbyn y targedau lleihau carbon a'i gynllun datgarboneiddio yn effeithiol, ac yn monitro hynny.

**3. MANYLION YR ADRODDIAD**

3.1. Ym mis Hydref 2018, rhagfynegiad newid hinsawdd Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) oedd bod effeithiau cynnydd yn nhymheredd yn fyd-eang yn waeth na'r disgwyl. Fel ymateb i'r rhagdybiaethau, dechreuodd awdurdodau lleol ledled y DU ddatgan 'Argyfyngau Hinsawdd'. Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ar 29 Ebrill 2019 ac ar 1 Mai 2019, cafodd y cynnig datganiad Argyfwng Hinsawdd ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol.

3.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ei ymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau di-garbon net erbyn 2050, a sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd Annibynnol.

3.3. Fel rhan o'r strategaeth hon i gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'Canllawiau Adrodd Di-garbon Net' sy'n nodi'r cwmpas a gofynion adrodd allyriadau carbon ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus.

3.4. Ar 9 Mai 2019, datganodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy argyfwng hinsawdd, a phasiwyd y penderfyniad canlynol:

*"Mae'r Cyngor yn nodi bod effeithiau newid hinsawdd a thywydd eithafol eisoes wedi cael effaith ar drigolion o fewn y sir, a bod trigolion sy'n byw ar dir isel ac ar yr arfordir yn byw mewn ardal sydd mewn perygl uchel o lifogydd. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi y disgwylir i lefel y môr godi 1.1 metr dros y ganrif nesaf, a bod llifogydd yn costio tua £200 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn.*

*Mae'r Cyngor yn datgan argyfwng hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.*

*Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gymryd y camau cadarnhaol sydd eu hangen i leihau allyriadau carbon a cheisio creu dyfodol carbon niwtral.*

*Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi lleihau allyriadau carbon yn llwyddiannus ar draws Cymru.*

*Bydd y Cyngor yn rhoi tasg i Fwrdd y Rhaglen Werdd ddatblygu cynllun eglur o ran llwybr yr Awdurdod tuag at fod yn ddefnyddiwr di-garbon net, dros y 12 mis nesaf. Bydd y cynllun yn cael ei gynllunio gyda'r nod o gael ei weithredu'n llwyr yn ystod y 10 mlynedd sydd i ddod."*

3.5. Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd Gynllun Datgarboneiddio Cyngor Conwy gymeradwyaeth ddemocrataidd unfrydol. Mae'r cynllun hwn yn nodi map llwybr y Cyngor tuag at gyflawni allyriadau di-garbon net erbyn 2030 o'r gweithgareddau o fewn y cwmpas.

3.6. Sefydlwyd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gyflawni'r ymyraethau angenrheidiol ar gyfer y Cyngor i gyflawni ei darged di-garbon net erbyn 2030.

3.7. Mae'r Cyngor wedi bod yn adrodd ar ei berfformiad carbon ers 2010, gan gynnwys defnydd ynni a thanwydd o'i adeiladau, fflyd CBSC, teithio busnes staff a goleuadau stryd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn mesur, ac yn adrodd ar weithgareddau sy'n allyrru carbon, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi a staff sy'n cymudo. Felly, lluniwyd sylfaen newydd ar gyfer y Cyngor, sy'n ymgorffori'r gweithgareddau ychwanegol hyn. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno allyriadau carbon o'r cwmpas diwygiedig hwn.

**3.8 Perfformiad Cyfateb i Garbon CBSC - Cyffredinol**

3.8.1 Mae Siart 1.1. isod yn nodi allyriadau Cyngor Conwy rhwng 2019/20 a 2021/22. Mae'r gweithgareddau allyrru carbon yn cynnwys:


- Defnyddio ynni a dŵr yn ein hadeiladau;
- Defnyddio tanwydd yn fflyd cerbydau'r Cyngor;
- Staff yn defnyddio tanwydd wrth ddefnyddio eu ceir ar gyfer busnes;
- Defnydd o ynni o ganlyniad i oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig;
- Staff yn defnyddio ynni wrth gymudo i, ac o'u gweithle;
- Trin gwastraff o'n gweithredoedd ein hunain;
- Defnyddio ynni a thanwydd yn ein cadwyn gyflenwi.

3.8.2 Cyfanswm allyriadau CBSC yn 2021/22 oedd 56,542 tCO2e. Wrth ystyried y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio drwy'r defnydd o dir, mae'r ffigwr wedi'i leihau i 56,086tCO2e.


3.8.3 Mae allyriadau yng nghategori'r gadwyn gyflenwi yn cyfri am y rhan fwyaf o allyriadau'r Cyngor ar 68% (38,196 tunnell) o'r cyfanswm. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan adeiladau ar 20% (11, 250 tunnell) ac yna staff sy'n cymudo ar 5% (3,045 tunnell).

3.8.4 Ar ddiwedd 2021-22, roedd allyriadau carbon CBSC wedi cynyddu o 0.3% (176 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20. Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd cynnydd mewn allyriadau o wariant y gadwyn gyflenwi. Credir bod y cynnydd yn deillio o effaith Covid-19 a chwyddiant.

*Siart 1.1*




*Siart 1.2*




3.8.5 Mae Siart 1.2 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.8.6 Rhagwelir bod cynnydd cyffredinol ar Raglen Her yr Hinsawdd yn **oren** gan fod cynnydd mewn allyriadau yn deillio o'r rhesymau a nodwyd ym mharagraff 3.8.4.

## 3.9 Perfformiad Cyfateb i Garbon CBSC - Adeiladau


3.9.1 Mae Siart 1.3 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau Cyngor Conwy o'i ddefnydd o ynni yn ei adeiladau rhwng 2019/20 a 2021/22.

3.9.2 Ar ddiwedd 2021/22, roedd CBSC wedi lleihau allyriadau carbon o'i adeiladau o 1% (123 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

3.9.3 Mae ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yn cynnwys:


- Cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithio o gartref:
- Gostyngiad o 1% yn nifer yr adeiladau. Yn 2019/20 roeddem yn meddiannu 114 o adeiladau, ac yn 2020/21 roeddem yn meddiannu 112 adeilad;

*Siart 1.3*




3.9.4 Er y bu gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau ar gyfer adeiladau, roedd cynnydd mewn defnydd o nwy naturiol, olew llosgi ac olew nwy o'n hadeiladau ein hunain, ein hysgolion yn bennaf. Credir bod hyn o ganlyniad i newidiadau mewn gofynion awyru yn ein hadeiladau yn sgil Covid-19.

*Siart 1.4*




3.9.5 Mae Siart 1.4 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o ddefnydd ynni yn ei adeiladau rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair

sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.9.6 O dan Raglen Her yr Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Di-garbon Net Ystadau yw lleihau allyriadau o adeiladau CBSC.

3.9.7 Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net Ystadau yw:

- Lleihau nifer yr adeiladau sy'n eiddo i CBSC ac yn cael eu meddiannu ganddynt;
- Datblygu a gweithredu strategaeth lleihau carbon yn benodol ar gyfer pob math o adeilad a system ynni leol;
- Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â dylunio adeiladau, adnewyddu a chynnal a chadw;
- Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli asedau strategol.
- Gwella effeithlonrwydd ynni a thermol ein hystadau drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Datblygu / cefnogi achosion busnes ar gyfer gweithredu mesurau di-garbon o fewn yr ystâd.

3.9.8 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn nhabl 1.1. isod.

*Tabl 1.1*

| Rhif adnabod | Tasg | Statws | Graddfa COG |
|---|---|---|---|
| 23 | **Sefydlu tîm Prosiect Ystadau Di-garbon Net** | Cwblhawyd | GREEN |
| **Cynnydd:** Nodwyd aelodau ar gyfer y tîm prosiect a'u cynnwys yn nogfennau'r rhaglen. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 11/10/2022. Wrth i aelodau ychwanegol gael eu nodi a'u cadarnhau, byddant yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd tîm. | | | |
| 24 | **Lleihau nifer yr adeiladau sy'n eiddo i CBSC ac yn cael eu meddiannu ganddynt** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Mae Tîm Rheoli Ystadau ac Asedau yn adolygu hyn fel rhan o'u dyletswyddau. | | | |
| 25 | **Datblygu Cynllun Prosiect** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Cynllun prosiect cychwynnol wedi'i ddatblygu. Adolygu'r cynllun yn y cyfarfod nesaf. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | **Datblygu a gweithredu strategaeth lleihau carbon yn benodol ar gyfer pob math o adeilad a system ynni** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** Camau penodol i'w cytuno yng nghyfarfod y tîm prosiect. | | | |
| 27 | **Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â dylunio adeiladau, adnewyddu a chynnal a chadw** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. | | | |
| 28 | **Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli asedau strategol.** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. | | | |
| 29 | **Gwella effeithlonrwydd ynni a thermol ein hystadau drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni.** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. | | | |
| 30 | **Datblygu / cefnogi achosion busnes ar gyfer gweithredu mesurau di-garbon o fewn yr ystâd.** | Parhaus. | GREEN |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. Eisoes yn digwydd mewn rhai amgylchiadau ond nid ar unrhyw drefniant ffurfiol. | | | |

3.9.9 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **oren**.

## 3.10 Perfformiad Carbon CBSC - Ysgolion

3.10.1 Mae ysgolion cynradd ac uwchradd Sir Conwy'n gyfranwyr sylweddol at allyriadau carbon Conwy, gan gyfrif am tua 54% o allyriadau'r Cyngor o'r adeiladau maent yn eu meddiannu.


3.10.2 Mae defnydd ynni ysgolion ar gyfer 2021/22 wedi'i fanylu yn siart 1.5 isod, sydd fel a ganlyn:

- 56 ysgol gynradd sy'n cyfrif am 41% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 ysgol uwchradd sy'n cyfrif am 26% o gyfanswm yr allyriadau;
- 3 ysgol Cynllun Ariannu Preifat sy'n cyfrif am 18% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 uned atgyfeirio disgyblion sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau;
- 1 ysgol arbennig sy'n cyfrif am 8% o gyfanswm yr allyriadau;

- 4 canolfan addysgol arall sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau.

*Siart 1.5*

**Allyriadau $CO_2$e Ysgolion 2021-22 (tunelli)**




3.10.3 Ar ddiwedd 2020/21, roedd ysgolion wedi cynyddu eu hallyriadau carbon o 4% (212 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

3.10.4 Mae ymyriadau wedi digwydd gyda'r nod o leihau allyriadau carbon yn ysgolion y Sir, fel rhan o raglenni gwella corfforaethol ehangach.

Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys:


- Gwneud effeithlonrwydd ynni'n rhan annatod o'r broses ddylunio ar gyfer gwella adeiladau;
- Ymwybyddiaeth wedi'i dargedu a newid ymddygiad fel rhan o brosiect Ysgolion Carbon Isel, cynnal archwiliadau ynni ysgolion a monitro'r defnydd o ynni ac archwilio anomaleddau.
- Disodli goleuadau LED fel rhan o waith cynnal a chadw ymatebol a phrosiectau moderneiddio ar raddfa fwy.

## 3.11 Effaith y Tywydd

3.11.1 Mae Siart 1.6 isod yn dangos y tymheredd cymedrig ar gyfer Cymru rhwng 2019/20 a 2021/22, o'i gymharu ag allyriadau carbon adeiladau CBSC ar gyfer yr un cyfnod, i sefydlu a wnaeth y tywydd effeithio ar ein perfformiad carbon.

Yn 2021/22 cynyddodd dymheredd cymedrig Cymru o 0.2ºC o'i gymharu â 2019/20, tra bo defnydd tanwydd gwres wedi cynyddu o 3%. Gostyngodd yr allyriadau carbon o adeiladau sy'n cael eu meddiannu o 6 tunnell (0.1%) ar gyfer yr un cyfnod oherwydd arbedion yn y defnydd o ynni o ganlyniad i lefelau uchel o weithio o gartref.

*Siart 1.6*




**3.12 Perfformiad Cyfateb i Garbon CBSC - Fflyd**

3.12.1 Mae Siart 1.7 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon gwirioneddol Cyngor Conwy o'i ddefnydd o danwydd yn ei fflyd rhwng 2019/20 a 2021/22.

3.12.2 Ar ddiwedd 2021/22, roedd CBSC wedi lleihau allyriadau carbon o'i fflyd o 5% (150 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.


3.12.3 Mae ffactorau i gefnogi gostyngiad mewn defnydd tanwydd yn cynnwys:

- Caffael cerbydau a pheiriannau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd; Mae gennym 14 o gerbydau trydan a pheiriant mawr yn ein fflyd ar hyn o bryd;
- Monitro ymddygiad gyrwyr;
- Peidio defnyddio LPG mwyach fel tanwydd i gerbydau;

- Mwy o arferion gwaith effeithlon drwy wella technoleg a thrawsnewidiadau gwasanaeth.

3.12.4 Mae'r gostyngiad i allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â fflyd y cyngor yn cael ei effeithio gan y gofyniad i gydymffurfio gyda rheoliadau allyriadau Euro 6. Mae ein cerbydau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau hyn yn defnyddio mwy o danwydd o ganlyniad i'r broses gynhesu yn y peiriant, wedi'i ddylunio i ostwng allyriadau diwedd proses.


*Siart 1.7*





3.12.5 Mae Siart 1.8 isod yn dangos tymereddau cymedrig gaeaf Cymru rhwng 2019/20 a 2021/22, o'i gymharu â defnydd tanwydd cerbydau graeanu ar gyfer yr un cyfnod, i sefydlu a yw'r tywydd gaeafol wedi effeithio ar ddefnydd tanwydd ein fflyd.

3.12.6 Yn 2021/22 roedd tymheredd cymedrig y gaeaf yng Nghymru mor oer â gaeaf 2019/20. Tybir bod y cynnydd o 3% mewn defnydd tanwydd cerbydau graeanu, o gymharu â 2019/20, yn deillio o gynnydd o 5% yng nghyfanswm y pellter mae cerbydau graeanu yn ei deithio.

*Siart 1.8*




*Siart 1.9*




3.12.7 Mae Siart 1.9 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o ddefnydd tanwydd ei fflyd rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.12.8 O dan Raglen Her yr Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Di-garbon Net y Fflyd yw lleihau allyriadau o adeiladau CBSC.

3.12.9 Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net y Fflyd yw:

- Newid fflyd cerbydau a pheiriannau mawr y Cyngor i ddatrysiad carbon isel fesul camau yn ôl categorïau cerbydau a pheiriannau byr dymor, tymor canolig a hir dymor erbyn 2030;

- Datblygu isadeiledd corfforol i gefnogi gweithrediad fflyd o gerbydau a pheiriannau mawr carbon isel;
- Datblygu fframwaith gwasanaethu a chynnal a chadw cerbydau carbon isel gwydn.
- Lleihau nifer y milltiroedd a deithir gan fflyd CBSC;
- Archwilio dewisiadau fflyd carbon isel amgen, e.e. hydrogen, biomethan, hybrid.

3.12.10 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn nhabl 1.2 isod.

*Tabl 1.2*

| Rhif adnabod | Tasg | Statws | Graddfa COG |
|---|---|---|---|
| 7 | **Proffilio fflyd CBSC i ddeall sut mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd a rhagweld y galw yn y dyfodol** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:**Proffilio Fflyd AFfCH, gweddill CBSC i ddilyn yn ddiweddarach. Proffilio busnes fel arfer yn amodol ar benderfyniad ynglŷn â llety yn y dyfodol. | | | |
| 8 | **Datblygu rhaglen i ddisodli'r holl fflyd gydag ULEV erbyn 2030** | Ar y gweill | RED |
| **Cynnydd:**Rhaglen ddisodli naturiol yn cael ei defnyddio. Trafodaeth am ariannu cerbydau ar y gweill. | | | |
| 9 | **Datblygu isadeiledd corfforol i gefnogi gweithrediad fflyd o gerbydau a pheiriannau mawr carbon isel;** | Ar y gweill | RED |
| **Cynnydd:** Grant £300mil gan CLlLC ar gyfer isadeiledd gwefru EV. Cynnig i ddefnyddio grant CLlLC i osod EVCI yn safleoedd CBSC wedi'i ddatblygu. Ymgynghoriaeth AFfCh i ddatblygu dyluniad ar gyfer ystod o orsafoedd gwefru 7 cerbyd a 50kW PV yn Nepo Builder Street a gorsafoedd gwefru 6 cerbyd yn Nepo Bron y Nant. Ymgynghoriaeth AFfCh i baratoi dogfennau tendr a chyflwyno tendr i gaffael dyluniad. Ymgynghoriaeth AFfCh i reoli caffael a gosod isadeiledd gwefru yn unol â'r dyluniad.<br><br>Derbyn data ar gapasiti gwefru a'r galw ar safleoedd CBSC lle y cedwir y fflyd yn awr ac yn y dyfodol gan Weithredwr Rhwydwaith Rhanbarthol ar ôl derbyn cadarnhad o restr o safleoedd.<br>Ni all Partneriaethau Lleol benderfynu ar uchafswm y capasiti sy'n ofynnol ar gyfer y cysyniad o un depo AFfCh oherwydd cyfyngiadau trwyddedu meddalwedd. Adolygu dewisiadau amgen ar hyn o bryd.<br><br>Datblygu isadeiledd corfforol i gefnogi gweithrediad fflyd o gerbydau a pheiriannau mawr carbon isel; | | | |
| 10 | **Datblygu fframwaith gwasanaethu a chynnal a chadw cerbydau carbon isel gwydn.** | Ar y gweill | AMBER |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd:** Ar fin gweithredu ID gyrwyr. Bydd hyn yn galluogi'r tîm i ddatblygu dangosyddion perfformiad gyrwyr a fflyd sy'n cynnwys data allyriadau.<br><br>Y tîm i sefydlu gwaelodlin ar gyfer perfformiad ar gyfer y dangosyddion perfformiad a gosod targedau mewn ymgynghoriad â gwasanaethau. Bydd y system yn galluogi cynhyrchu adroddiadau perfformiad misol ar gyfer y fflyd a'r gyrwyr a'u dosbarthu i'r adrannau perthnasol.<br><br>Y tîm i ystyried cymhellion ac anghymhellion i wella perfformiad.<br>Gweithgor Cerbydau i ddatblygu Polisi Tracio Fflyd CBSC. | | | |
| 11 | **Archwilio'r holl ddewisiadau fflyd carbon isel amgen, e.e. hydrogen, biomethan, hybrid.** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Yn derbyn adroddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â throsglwyddo'r fflyd i "ddisel adnewyddadwy". Cysylltu ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru. | | | |
| 12 | **Datblygu Polisi Gwefru EV yn y gweithle** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Gweithio i nodi staff sy'n mynd â cherbydau CBSC gartref a'r rhai sydd ag EVCI oddi ar y ffordd/ heb EVCI. Ymchwil yn cael ei gyflawni i weld beth yw ymagwedd Awdurdodau Lleol eraill o ran gwefru cerbydau. | | | |

3.12.11 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **oren**.

## 3.13 Perfformiad Cyfateb i Garbon CBSC – Goleuadau Stryd a Theledu Cylch Caeëdig


3.13.1 Mae Siart 1.10 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Conwy o'i oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig, rhwng 2019/20 a 2021/22.

3.13.2 Ar ddiwedd 2021/22, roedd allyriadau carbon o oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig wedi gostwng o 43% (546 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.


3.13.3 Mae watedd cyfartalog pob ased golau wedi gostwng o 11% yn 2021/22, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad mewn defnydd yn bennaf oherwydd y rhaglen disodli llusernau. Dylid hefyd nodi bod nifer yr asedau wedi gostwng o 0.3%.

3.13.4 Mae rhaglen ddisodli ar gyfer goleuadau stryd i ddisodli llusernau gyda LED sy'n fwy effeithlon wedi'i gwblhau yn awr. Hyd yn hyn, mae 16,580 o lusernau wedi'u huwchraddio i LED.

*Siart 1.10*




*Siart 1.11*




3.13.5 Mae Siart 1.11 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o’i oleuadau stryd a TCC rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.13.6 O dan Raglen Her yr Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Di-garbon Net Goleuadau Stryd yw lleihau allyriadau o oleuadau stryd CBSC.

3.9.7 Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net Goleuadau Stryd yw:

- Uwchraddio llusernau SOX presennol i dechnoleg LED.

3.13.8 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn y tabl 1.3. isod.

*Tabl 1.3*

| Rhif adnabod | Tasg | Statws | Graddfa COG |
|---|---|---|---|
| 6 | **Trawsnewid 90% o oleuadau stryd i LED.** | Cwblhawyd | GREEN |
| **Cynnydd:** Cynnwys casgliadau o'r adolygiad o isadeiledd goleuadau stryd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020, a fydd yn arwain at 90% o oleuadau stryd y cyngor yn rhai LED erbyn 2022. | | | |

3.13.9 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **wyrdd**.

## 3.14 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Teithio gan Staff

3.14.1 Mae teithiau staff yn ymwneud ag allyriadau o deithiau cymudo staff a fflyd lwyd (teithiau busnes).

3.14.2 Mae Siart 1.12 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Conwy o'i staff sy'n cymudo, rhwng 2019/20 a 2021/22.


3.14.3 Ar ddiwedd 2021/22, roedd allyriadau carbon o staff sy'n cymudo wedi gostwng o 30% (1,295 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

3.14.4 Mae allyriadau'n cael eu cyfrifo ar ragdybiaethau sy'n seiliedig ar god post cyfeiriad cartref aelodau staff a'u lleoliad gwaith pennaf.


3.14.5 Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd lefelau uchel o staff sy'n gweithio o gartref yn dilyn pandemig Covid-19.

3.14.6 Mireiniwyd y data ymhellach i wella ei ansawdd, er enghraifft, eithriwyd staff dros dro sy'n cymudo gan fod hyn yn cael ei gyfrifo dan allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi fel gwasanaeth a gaiff ei gaffael.

*Siart 1.12*




*Siart 1.13*




3.14.6 Mae Siart 1.13 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o'i staff sy'n cymudo rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.14.7 Mae Siart 1.14 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Conwy o'i filltiroedd teithio fflyd lwyd, rhwng 2019/20 a 2021/22.

3.14.8 Ar ddiwedd 2021/22, roedd CBSC wedi lleihau allyriadau carbon o filltiroedd teithio fflyd lwyd o 45% (246 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.


3.14.9 Hawliwyd cyfanswm o 636,095 yn llai o filltiroedd yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen a arweiniodd at arbediad o £277,525 ar gost milltiroedd busnes.

3.14.10 Mae ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn wedi cynnwys:


- Y nifer uchel parhaus o ddulliau gweithio Doethwaith yn dilyn pandemig Covid-19 sydd wedi lleihau'r angen ar gyfer teithiau busnes.

- Trawsnewidiadau yn Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ailstrwythuro sawl gwasanaeth arall.

*Siart 1.14*




*Siart 1.15*




3.14.12 Mae Siart 1.15 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o filltiredd y fflyd lwyd rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.14.13 O dan Raglen Her yr Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Di-garbon Net Teithiau Staff yw lleihau allyriadau o deithiau fflyd lwyd a chymudo gan staff CBSC.

3.14.14 Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net Teithiau Staff yw:

- Datblygu Polisi Teithio Staff;
- Datblygu'r isadeiledd corfforol i hwyluso llai o deithiau gan staff, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu gweithdrefnau i hwyluso llai o deithiau busnes a chymudo;
- Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llai o deithio, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu Cynllun Teithio Gweithle CBSC.

3.14.15 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn nhabl 1.4. isod.

*Tabl 1.4*

| Rhif adnabod | Tasg | Statws | Graddfa COG |
|---|---|---|---|


| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | **Datblygu Polisi Teithio Staff** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Dull o nodi data cymudo staff yn rheolaidd. Cynhyrchwyd drafft Arolwg Teithio Staff. Adolygwyd y ddogfen a darparwyd adborth gan CCPB. Awgrymodd CCPB y dylid cyflwyno'r ddogfen i'r Tîm Arwain Strategol.<br><br>Ymchwil i bolisïau teithio staff o sefydliadau eraill ar y gweill ac mae drafft Polisi Teithio Staff wedi'i gynhyrchu. Mae drafft y Polisi Teithio Staff yn cael ei adolygu gan y tîm prosiect ar hyn o bryd. | | | |
| 14 | **Datblygu'r isadeiledd corfforol i hwyluso llai o deithiau gan staff, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** Adolygu isadeiledd corfforol presennol yn lleoliadau CBSC. Capasiti yn broblem. Cynnydd hefyd, yn rhannol ddibynnol ar Ddoethwaith 2020 a nodi prif leoliadau gwaith.<br><br>Dadansoddiad o ddata hawlio milltiredd staff er mwyn proffilio'r fflyd lwyd i'w gwblhau ym mis Medi 2022.<br><br>Data a dadansoddiad ar leoliadau gwaith a chartref y staff i benderfynu ar gyfran y staff gyda'r teithiau cymudo pellaf. | | | |
| 15 | **Datblygu gweithdrefnau i hwyluso llai o deithiau busnes a chymudo;** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** Adolygu i weld pa weithdrefnau sydd yn eu lle ar hyn o bryd | | | |
| 16 | **Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llai o deithio, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Hyrwyddo cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan a Chynllun Beicio i'r Gwaith.<br><br>Bydd canlyniadau Arolwg Teithio Staff yn nodi cymhelliant i annog staff i ddewis dulliau carbon isel. | | | |
| 17 | **Datblygu Cynllun Teithio Gweithle CBSC.** | Ar y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w ddatblygu ar ôl yr arolwg teithio staff. | | | |

3.14.16 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **wyrdd**.

## 3.15 Gweithio o gartref

3.15.1 Mae Siart 1.16 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Conwy o'i staff sy'n gweithio o gartref, rhwng 2019/20 a 2021/22.

Siart 1.16




3.15.2 Credir bod allyriadau oherwydd gweithio o gartref yn isel iawn cyn y pandemig.

3.15.3 Pan oedd y pandemig yn ei anterth, roedd yr allyriadau o weithio o gartref wedi codi i oddeutu 935 tCO2e.

3.15.4 Yn ystod 2021/22, roedd allyriadau o weithio o gartref wedi gostwng i 901 tCO2e gan fod staff wedi dychwelyd i'r swyddfeydd a'r athrawon wedi dychwelyd i'r ysgolion yn llawn amser.

**3.17 Perfformiad Cyfateb i Garbon CBSC – Y Gadwyn Gyflenwi**


3.17.1 Mae Siart 1.17 isod yn rhoi manylion ynghylch allyriadau carbon Cyngor Conwy o wariant ar ei gadwyn gyflenwi, rhwng 2019/20 a 2021/22.

3.17.2 Mae'r gadwyn gyflenwi yn cyfri am tua 68% o gyfanswm allyriadau CBSC.


3.17.3 Ar ddiwedd 2021/22, roedd allyriadau carbon o wariant ar y gadwyn gyflenwi wedi cynyddu o 7% (2,539 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

3.17.4 Mae'r data'n seiliedig ar gymhwyso ffactorau allyriadau i'r £ a wariwyd mewn amryw gategori. Mae'r cynnydd mewn allyriadau yn deillio o gynnydd mewn gwariant yng nghategorïau Offer, Cynnyrch wedi'i Weithgynhyrchu, Atgyweirio a Chynnal a Chadw a Chyfleustodau.

*Siart 1.17*




*Siart 1.18*




3.17.5 Mae Siart 1.18 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy o’r gwariant ar y gadwyn gyflenwi rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

3.17.6 O dan Raglen Her yr Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Di-garbon Net y Gadwyn Gyflenwi yw lleihau allyriadau o gadwyn gyflenwi CBSC.

3.17.7 Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net y Gadwyn Gyflenwi yw:

- Gwella methodoleg data allyriadau y gadwyn gyflenwi;
- Integreiddio di-garbon net fel rhan o bolisïau a gweithdrefnau caffael CBSC.
- Adolygu templedi caffael ar draws CBSC i integreiddio datgarboneiddio fel ffactor o brosesau caffael;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i gymell lleihau carbon ymysg cyflenwyr;
- Ymgysylltu â sefydliadau eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ymagwedd gydlynol;
- Lleihau allyriadau carbon yng nghadwyn gyflenwi CBSC gan gymhwyso'r wybodaeth a gafwyd o ddata allyriadau'r gadwyn gyflenwi, gweithredu polisïau, gweithdrefnau ac ymagweddau caffael diwygiedig mewn perthynas â di-garbon net a cheisio cyfranogiad cyflenwyr i leihau allyriadau carbon o gadwyn gyflenwi CBSC i gyflawni targed di-garbon net erbyn 2030 i gynorthwyo'r ymgyrch fyd-eang.

3.17.7 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn nhabl 1.5. isod.

*Tabl 1.5*

| Rhif adnabod | Tasg | Statws | ddfa COG |
|---|---|---|---|
| 31 | **Sefydlu tîm prosiect Cadwyn Gyflenwi Di-garbon Net** | vblhawyd | GREEN |
| Nodwyd aelodau ar gyfer y tîm prosiect a'u cynnwys yn nogfennau'r rhaglen. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 29/07/2022. Wrth i aelodau ychwanegol gael eu nodi a'u cadarnhau, byddant yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd tîm. Rheolwr Prosiect yn ei le yn awr. | | | |
| 32 | **Gwella methodoleg data allyriadau y gadwyn gyflenwi** | arhaus | GREEN |
| **Cynnydd:** Data a methodoleg ar gael. Data i'w rannu gyda'r tîm prosiect i'w adolygu a'i drafod yn y cyfarfod tîm nesaf (14/10/2022). | | | |
| 33 | **Integreiddio di-garbon net fel rhan o bolisïau a gweithdrefnau caffael CBSC.** | y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Mae Rheolwr Caffael a Chontractau Corfforaethol yn nodi bod hyn ar y gweill a bod angen polisi newydd erbyn mis Rhagfyr 2022. | | | |


| | | | |
|---|---|---|---|
| 34 | **Adolygu templedi caffael ar draws CBSC i integreiddio datgarboneiddio fel ffactor o brosesau caffael** | y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. | | | |
| 35 | **Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i gymell lleihau carbon ymysg cyflenwyr** | y gweill | AMBER |
| **Cynnydd:** I'w drafod yn y cyfarfod prosiect. | | | |

3.17.8 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **oren**.

**3.18 Defnydd Tir**

3.18.1 Mae Siart 1.18 uchod yn nodi cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Conwy a gaiff ei ddal a'i storio drwy ddefnydd tir rhwng 2019/20 a 2021/22 yn erbyn tair sefyllfa allyriadau: parhau fel yr arfer, camau ymrwymedig a chamau pellach.

*Siart 1.18*




3.16.2 Ar ddiwedd 2021/20, mae allyriadau sy'n cael eu storio a'u dal o ddefnydd tir wedi aros yr un fath, â phan gymharwyd â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.

3.16.3 Mae'r data'n seiliedig ar ddadansoddiad o'n hasedau tir.

3.16.4 Mae’r goedwig sy’n perthyn i CBSC yn gweithredu fel sinc carbon. Amcangyfrifir bod y coetir yn gyfrifol am ddal a storio 452 tunnell o allyriadau cyfateb i $CO_2$ yn flynyddol, sef tua 1% o gyfanswm allyriadau CBSC.

3.18.5 O dan Raglen Her yr Hinsawdd mae prosiect gwrthbwyso carbon yn gyfrifol am ddal a storio allyriadau gan CBSC drwy ddefnydd tir.

3.18.6 Amcanion prosiect Gwrthbwyso Carbon yw:

- Sefydlu effaith coed trefol ar allyriadau carbon CBSC;
- Plannu coed ar draws 110 hectar o ystadau presennol CBSC;
- Ehangu plannu coed ar draws 225 hectar ychwanegol o ystadau CBSC;
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau adnewyddadwy ar draws ystadau CBSC; fel ffermydd solar;
- Cynyddu llwyni yn ystadau CBSC.

3.18.7 Nodir cynnydd presennol y prosiect yn erbyn y cynllun rhaglen yn nhabl 1.6. isod.

*Tabl 1.6*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 | **Sefydlu effaith coed trefol ar allyriadau carbon CBSC;** | Ar y gweill | GREEN |
| **Cynnydd:** Cyfrifo amsugniad carbon o’n coed trefol presennol. Ar hyn o bryd yn trafod gyda’r Adain Gwybodaeth Rheoli o ran pa wybodaeth sydd ar gael ar Symology ac i-Tree. Gellir defnyddio i-Tree i gyfrifo gwrthbwyso carbon os yw’r data cywir ar gael.<br><br>Mannau agored yn gweithredu cynllun adfer clefyd coed ynn. | | | |
| 19 | **Plannu coed ar draws 110 hectar o ystadau presennol CBSC;** | Parhaus | GREEN |
| **Cynnydd:** Lleoliadau mewn perygl wedi’u nodi gan Ystadau a Rheoli Asedau gydag ymweliadau safle’n cael eu cynnal i nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Rhagweld datblygu hyd at 3 safle y flwyddyn.<br><br>Archwilio cyllid wedi nodi cyfleoedd i gysylltu gyda Chanopi Gwyrdd y Frenhines (Dathliadau’r Jiwbilî), a chyfleoedd am gyllid drwy LIC a chyswllt gydag Awdurdodau Lleol eraill. Datganiadau diddordeb yn cael eu paratoi fel y bo’n briodol.<br><br>Mae’r tîm prosiect yn rhannu deunydd hyrwyddo am grantiau a chyllid yn rheolaidd. | | | |
| 20 | **Ehangu plannu coed ar draws 225 hectar ychwanegol o ystadau CBSC** | I ddechrau | AMBER |
| **Cynnydd:** Adolygu safleoedd posibl. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | **Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau adnewyddadwy ar draws ystadau CBSC; fel ffermydd solar** | Parhaus | AMBER |
| **Cynnydd:** Trafodaethau cychwynnol i nodi lefelau cefnogaeth yn LIC. Cyllid ar gyfer penodi ymgynghorydd i symud ymlaen â'r dewisiadau yn cael ei ganfod.<br><br>Gwneud ymholiadau ynglŷn â phrosiect fferm solar blaenorol dan arweiniad adran gynllunio CBSC a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru rhag ofn ei fod yn hyfyw yn awr. | | | |
| 22 | **Cynyddu llwyni yn ystadau CBSC** | Parhaus | GREEN |
| **Cynnydd:** Mae Ardaloedd Chwarae wedi'u nodi fel ffynhonnell bosibl i greu llwyni. Gwahoddiad wedi'i gyflwyno i aelod o'r tîm ymuno â'r grŵp. | | | |

3.18.8 Nodir bod cynnydd presennol y prosiect yn **oren**.

## 4.0 DEWISIADAU

Amherthnasol.

## 5.0 YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI

Ymgynghorwyd â'r aelodau staff perthnasol ar draws yr awdurdod sydd wedi bod ynghlwm wrth ddatgarboneiddio yng Nghonwy.

Ymgynghorwyd gydag Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Chludiant ac mae ei sylwadau fel a ganlyn:

## 6.0 GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Mae'r balans o gyllideb gyfalaf yr hen Raglen Rheoli Carbon wedi cael ei ail-alinio i Raglen Her yr Hinsawdd. Bydd angen buddsoddiad ychwanegol i ariannu darpariaeth yr ymyraethau gofynnol i gyflawni allyriadau di-garbon net erbyn 2030;

Mae Bwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd ar waith i oruchwylio darpariaeth y rhaglen. Mae Llywodraethu wedi'i sefydlu ar gyfer pob prosiect dan y rhaglen hon.

Mae'n rhaid i ni fonitro ein perfformiad carbon er mwyn galluogi'r Cyngor i leihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol sy'n allyrru carbon a helpu i liniaru'r newid hinsawdd.

## 7.0 CYNLLUN CORFFORAETHOL

Mae'r Awdurdod wedi gwneud ymrwymiad yng Nghynllun Corfforaethol 2022-27 fel a ganlyn:

Canlyniad 1: Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.

Cam A1.1 Drwy ein Rhaglen Her yr Hinsawdd, byddwn yn gweithio i fod yn sefydliad di-garbon net erbyn 2030.

Cam 1.2 Defnyddio buddsoddiad cyfalaf mewn isadeiledd mewn ffordd sy'n cefnogi gwytnwch yr hinsawdd yn ogystal â gadael gwaddol cymdeithasol ac economaidd.

Cam 1.3 Darparu ein Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau.

Cam 1.4 Datblygu a gweithredu isadeiledd teithio llesol er mwyn annog cerdded a beicio a lleihau'r defnydd o geir.

## 8.0 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Hirdymor

Mae lleihau allyriadau carbon y Cyngor yn lleihau dibyniaeth ar adnoddau naturiol sy'n darwagio, ac yn helpu i amddiffyn a diogelu'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.

Atal

Mae lleihau allyriadau carbon y Cyngor yn dangos bod y Cyngor yn chwarae ei ran i arafu newid byd-eang yn yr hinsawdd.

Integreiddio

Mae lleihau allyriadau carbon y Cyngor yn helpu i ddarparu Canlyniad Corfforaethol y Cyngor 'Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd'. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni targedau lleihau carbon byd-eang a chenedlaethol.

Cydweithio

Mae pob adran a staff o'r Cyngor yn cyfrannu at weithgareddau sy'n cynhyrchu carbon ac felly'n chwarae rhan allweddol wrth leihau allyriadau'r Cyngor. Mae AFfCh yn gweithio gyda'r adrannau i'w cynorthwyo i wneud hyn.

Cyfranogiad

Mae aelodaeth timau prosiect o dan Raglen Her yr Hinsawdd, mentrau ymwybyddiaeth lleihau carbon ac archwiliadau ynni'n rhoi cyfleoedd i staff

o bob adran o'r Cyngor i gymryd rhan i helpu'r Cyngor leihau ei allyriadau carbon.

## 9.0 GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

Dim goblygiadau cydraddoldeb wedi'u canfod.

## 10.0 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

Bydd Rhaglen Her yr Hinsawdd CBSC, y Cynllun Rheoli Asedau a'r Strategaeth Gofod Swyddfa'n effeithio ar leihau carbon y Cyngor.

## 11.0 GOBLYGIADAU O RAN RISG

Mae'r risg canlynol wedi'i nodi fel risg corfforaethol:

CR6.6 - Y risg bod ein hymateb i'r argyfwng newid hinsawdd yn methu â chyflawni ein targed di-garbon net. Mae sgôr risg gweddillol o C1 yn perthyn i hyn (mawr).

Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi lliniaru'r risg.

## 12.0 SYLWADAU'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Amherthnasol.

## 13.0 SYLWADAU'R GRŴP ADOLYGU ADRODDIADAU (GAA)

Amherthnasol.

Dilysiad yr Adroddiad Amgylcheddol

Mae'r gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol yma wedi ei brofi a'i ddilysu gan archwiliwr y Ddraig Werdd ac mae'r gwybodaeth yn asesiad teg a chywir o weithgareddau a prefformiad amgylcheddol y sefydliad tros y flwyddyn diwethaf sydd oddifewn i sgôp diffiniedig y sefydliad.

Archwiliwr Arweiniol: Robert Williams

Sefydliad Archwilio: Groundwork Cymru

Dyddiad yr Archwiliad: 27ain Chwefror hyd at 3ydd Mawrth 2023

Dilys Tan: 15fed Mawrth 2024

Nid yw dilysu'r Adroddiad Amgylcheddol yn cadarnhau ardystiad y Sustem Rheoli Amgylcheddol yn erbyn Safon y Ddraig Werdd. Fe all gael cadarnhad o ardystiad drwy gael copi dilys o dystysgrif Draig Werdd y sefydliad neu drwy ymweld â safle we'r Ddraig Werdd yn www.greendragonems.com